

Cyngor Sir Penfro
Adroddiad ar Arolygiad Gwerthuso
Perfformiad

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir Penfro ym mis Mawrth a mis Ebrill 2022.

Pwrpas yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn sydd wedi'u halinio o dan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

1. Pobl – llais a rheolaeth

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth (gan gynnwys oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso), neu gymorth yn achos gofalwr?

2. Atal

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn adolygu cynlluniau gofal a chymorth pobl yn barhaus, gan gynnwys pan fydd angen diwallu anghenion yr unigolyn er mwyn ei amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso?

3. Llesiant

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cadw pobl yn ddiogel ac yn hyrwyddo llesiant mewn perthynas â chyflawni ei gyfrifoldebau statudol?

4. Partneriaethau ac integreiddio

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn diwallu'r angen am ofal a chymorth (gan gynnwys y rheini y mae angen eu hamddiffyn) a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau i'r bobl?

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r trefniadau i helpu ac amddiffyn pobl. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- gwerthusiad o brofiad pobl ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad
- gwerthusiad o'r profiad y mae pobl yn ei gael a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni drwy eu cyswllt â gwasanaethau
- tystiolaeth bod yr awdurdod lleol a'r partneriaid wedi dysgu gwersi o'u profiadau diweddar a bod ganddynt gynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau

- ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfle a risg wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol

Crynodeb

Mae Cyngor Sir Penfro wedi bod yn profi cyd-destun gofal cymdeithasol heriol, fel y mae awdurdodau lleol eraill ledled Cymru; gwelir cynnydd yn y galw am y gwasanaeth, a chynnydd yn y cymhlethdod ar draws y gwasanaeth, ynghyd ag anawsterau cyflenwi'r gweithlu. Mae hyn yn cael ei amlygu yn ymatebion staff ar draws ein gweithgarwch arolygu, ac o'r herwydd heriau cyflawni gofynion llwyth gwaith uchel. Mae'r sefyllfa staffio bresennol yn cael effaith andwyol ar allu gweithwyr i hybu llesiant plant ac oedolion.

Ar ddiwedd 2021, roedd y swyddi gwag yn y gwasanaethau plant yn golygu bod pryder ynghylch cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, felly datblygwyd cynllun ymateb critigol. O ran gwasanaethau oedolion, mae prinder gwasanaethau cymorth cartref yn peri anawsterau ac yn cael effaith amlwg ar ddarparu gofal a chymorth. Mae cynllun datblygu'r gweithlu ar waith ac mae arwyddion cynnar bod hyn yn helpu i wella'r sefyllfa.

Gall yr awdurdod lleol ymateb i anghenion diogelu brys ac argyfwng, ond gwelir oedi ac achosion lle y gadewir i bethau lithro mewn rhai sefyllfaoedd, fel yr amlygwyd yn sampl y ffeiliau a adolygwyd. Mae hyn yn golygu nad yw canlyniadau pobl bob amser yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.

Gwelsom rai enghreifftiau gwych o'r staff yn ymgysylltu â phobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymhleth. Dywedodd staff wrthym, fodd bynnag, am yr anawsterau beunyddiol i gefnogi pobl i gyflawni eu dewisiadau a diwallu eu hanghenion gofal a llesiant, oherwydd diffyg adnoddau. Y meysydd o bryder mwyaf a fynegwyd gan reolwyr y gwasanaethau oedolion yw'r rhestr aros am asesiad ac adolygiadau hwyr. Gwelsom ddiffyg capasiti i gyd-fynd â'r galw.

Oherwydd pwysau staffio, nid yw'r awdurdod lleol yn gallu manteisio ar gyfleoedd i gyflawni gwaith ataliol mewn ffordd sy'n lleihau'r galw am wasanaethau gofal a chymorth. Ceir enghreifftiau pan nad yw'r gwasanaethau cymorth cartref ar gael, ac nid oes gan bobl ddewis heblaw symud i gartref gofal am gyfnodau dros dro, er efallai y byddai'n well ganddynt dderbyn gofal a chymorth yn y cartref.

Er bod enghreifftiau gweithredol rhagorol o wasanaethau'n cydweithio, nid oes partneriaethau effeithiol ar draws yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a phartneriaid bob amser ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel, sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn ar gyfer grwpiau penodol o oedolion, megis

pobl awtistig a phobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl. Mae bylchau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth. Prin yw'r dystiolaeth o gyd-ddealltwriaeth a chydweithredu ar draws gwasanaethau oedolion mewn rhai meysydd.

Mae'r awdurdod lleol yn cael cryn anhawster sicrhau bod digon o leoliadau da i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y bobl ifanc hynny â chefnidir cymhleth a thrawmatig. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn lleol ac yn rhanbarthol i wella'r sefyllfa hon.

Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau plant yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y sefydliad o ran cyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, ond mae swyddi gwag a llwyth gwaith yn peryglu eu gallu i gyflawni hyn.

Roedd ansawdd asesu risg yn y gwasanaethau plant yn amrywio. Mae angen canolbwyntio o'r newydd ar asesu risg er mwyn sicrhau bod adroddiad cydlynol ar amgylchiadau plant yn sail i farn broffesiynol. Dylai asesiadau sicrhau bod ffactorau'r gorffennol a'r presennol yn cael eu hystyried i nodi risgiau i blentyn neu berson ifanc yn y dyfodol.

Prif ganfyddiadau a thystiolaeth

Rydym yn cyflwyno rhai o'r prif ganfyddiadau a thystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor y Ddeddf. Gall gwelliannau a oedd yn ofynnol mewn adroddiadau blaenorol AGC hefyd ymddangos yn yr adroddiad hwn i bwysleisio'u perthnasedd a'u pwysigrwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gofynion blaenorol ar gyfer gwelliannau nad ydynt wedi eu bodloni eto, ond nad oes sôn amdanynt yn yr adroddiad hwn, yn parhau i fod yn berthnasol ac nid ydynt yn cael eu dirymu drwy eu hepgor yma.

Pobl

Cryfderau:

Yn y gwasanaethau oedolion, i lawer o bobl, mae eu lleisiau'n cael eu clywed, ac mae llawer yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a nodwyd gan eu hunain. Mae'r staff yn cyflawni 'cipolwg' ar gyfer pobl ac mae hwn yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn a'i gryfderau. Dywedodd llawer o bobl fod y gwasanaethau cymdeithasol o gymorth a bod yr ymarferwyr yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd rhai gofalgwyr anffurfiol yn parhau i fod yn wydn, er gwaethaf eu bod yn gallu derbyn llai o gymorth yn ystod y pandemig, a dywedasant eu bod yn hapus â'r cymorth. Dangosodd ein sgysiau gyda'r gofalgwyr hyn brofiadau cadarnhaol, law yn llaw ag adborth am oedi mewn gofal a chymorth a diffyg gweithwyr gofal. Roedden nhw a'r unigolyn sy'n derbyn gofal wedi gallu defnyddio ystod o opsiynau

gwasanaeth; roedd darpariaeth dydd, taliadau uniongyrchol a gofal seibiant yn eu mysg.

Nodwyd gennym fod taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n gadarnhaol a gwelsom enghreifftiau o gynorthwyr personol yn gweithio gyda phobl ag anghenion cymhleth. Roedd yn galonogol clywed y bydd ganddynt fynediad i raglen dysgu a datblygu'r awdurdod lleol yn y dyfodol.

Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol o oedolion yn cael cynnig eiriolaeth a ddarparwyd gan Ganolfan Byw Annibynnol Dewis.

Mae llais y plentyn yn amrywio o ran cynllunio gofal a chymorth, ac mae'r enghreifftiau gorau yn dangos cipolwg gofalus o hanes, hoffterau a chanlyniadau plentyn. Gwelsom rai enghreifftiau o arferion yn canolbwyntio ar y plentyn yn defnyddio adnoddau megis y "tri thŷ" i gynorthwyo cyfathrebu. Mae rhai cofnodion wedi'u hysgrifennu'n gywir yng ngeiriau'r unigolyn ifanc. Mae hyn yn gymeradwy oherwydd gall gynrychioli barn yr unigolyn yn fwy cywir.

Ceir enghreifftiau o ymarferwyr yn cydweithio'n gyson gyda phlant; dywedodd un unigolyn ifanc fod ganddo'r un gweithiwr cymdeithasol ers blynnyddoedd lawer a bod hwnnw'n "*nabod fi'n dda iawn*" ac roedd "*bob amser ar ochr arall y ffôn*" pan fo angen.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o blant yn cael eu hatgyfeirio at eiriolaeth a'r manteision a ddaw yn sgil hyn wrth ddatblygu gofal a chymorth. Mae cysylltiadau da rhwng Tros Gynnal Plant, gweithwyr cymdeithasol, a chomisiynwyr.

Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan am y cymorth a gafwyd gan reolwyr. Roedd y gweithlu'n ymdrechu'n ddiflino i gefnogi pobl agored i niwed, ond roedd yn amlwg bod mwy o alw am y gwasanaeth nac ydoedd o adnoddau ar gael. Mae'r uwch-reolwyr yn cadw golwg ar arfer rheng flaen, er bod ei bod yn anodd iddynt ymateb ar draws y sefydliad gan fod cymaint o bwysau ar sawl un o'r meysydd.

Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd; roedd hwn yn weithredol, ac yn canolbwyntio ar dasgau yn hytrach nag yn fyfyrion. Roedd dull goruchwylio seiliedig ar gryfderau yn amlwg, yn fwy amlwg yn y gwasanaethau oedolion na'r gwasanaethau plant. Roedd cofnodion goruchwylio hefyd yn amlygu'r pwysau llwyth gwaith ar y staff.

Mae sawl ffactor wedi effeithio ar recriwtio a chadw staff yn y gwasanaethau plant; dywedodd rhai aelodau o staff fod y telerau ac amodau a gynigir gan awdurdodau lleol cyfagos yn fwy ffafriol. Mae gan yr awdurdod lleol gynllun gweithlu ar waith sy'n anelu at sicrhau bod ganddo weithlu effeithiol sydd â'r sgiliau priodol i allu bodloni'r galw. Mae pwyslais ar 'feithrin' ei weithwyr cymdeithasol ei hun drwy noddi cymwysterau ffurfiol eisoes ar waith, ac mae'n hanfodol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem yn y dyfodol.

Yr hyn y mae angen ei wella:

Mae pobl yn ymwneud yn bennaf â chyd-gynhyrchu gofal a chymorth ond mae oedi wrth helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau yn bryder sylweddol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd canlyniad anochel y galw uchel a diffyg adnoddau i ymateb yn brydlon. Disgwyliwn i'r awdurdod lleol barhau i fonitro ac adolygu ei gynllun gweithlu.

Roedd yn anodd weithiau nodi sut yr oedd anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried, neu gael tystiolaeth o gynnig penodol o asesiad. Gwelsom rywfaint o arferion cadarnhaol mewn asesiadau cyfun lle'r oedd safbwyntiau perthnasau/gofalwyr yn cael eu hymgorffori. Cyfeiriodd staff at y straen yr oedd gofalwyr yn ei brofi yn ystod y pandemig, a llai o ddarpariaeth gwasanaethau, yn enwedig prinder y gofal seibiant oedd ar gael. Nodwyd oedi wrth ymateb a chynnal asesiadau pan ofynnodd gofalwyr am help. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y cynigir asesiad gofalwr yn brydlon ac yn ddiamwys.

Dylid rhagweld yn well y rhwystrau posibl i gael mynediad at wasanaethau er mwyn rhoi cymaint o gyfle â phosibl i bobl gyfranogi'n ystyrllon. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod angen i'r awdurdod lleol wneud mwy i sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn deall pa mor bwysig yw darparu gwasanaeth yn iaith dewis cyntaf y bobl. Er enghraifft, nododd asesiad mai Cymraeg oedd iaith gyntaf unigolyn, ond nid oedd yn amlwg a roddwyd y cyfle iddo siarad ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu gael gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ar gyfer yr un unigolyn hwn, roedd yn gadarnhaol y nodwyd bod angen asesiad galluedd meddyliol yn y Gymraeg arno yn ddiweddarach, ond nid ystyriwyd hyn tan ar ôl i'r unigolyn ddechrau gofal seibiant.

Roedd adborth gan bobl ag anabledd dysgu (a goladwyd yn garedig gan Bobl yn Gyntaf Sir Benfro) yn ategu nifer o feysydd allweddol a nodwyd drwy weithgarwch arolygu arall. Un maes allweddol oedd mynediad at wasanaethau a dywedodd llawer o bobl y gallai cysylltu â gofal cymdeithasol drwy'r brif linell ffôn gymryd amser maith. Dywedodd pobl fod gweithwyr cymdeithasol yn fwy hygyrch cynt. Roedd cysylltu mewn argyfwng yn bryder arbennig ac awgrymwyd y dylid cael llinell gofal cymdeithasol bwrpasol.

Yn y gwasanaethau plant, roedd goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn rheolaidd ar y cyfan ond mae angen gwella cymorth llesiant, a chymorth dysgu a datblygu. Roedd y sgyrsiau am y llwyth gwaith hefyd yn rhy fyr ac ychydig iawn o dystiolaeth a gafwyd o sgyrsiau myfyriol. Mae hyn yn golygu y gellid colli cyfleoedd i gefnogi datblygu arferion ac y caiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i deuluoedd ei effeithio.

Roedd siom nad oedd ceisiadau am gapasiti ychwanegol i wella darpariaeth gwasanaethau ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant wedi cael eu cefnogi gan y cyngor.

Yn y gwasanaethau plant, mae angen datblygu cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal a chymorth rhywfaint. Mae angen defnyddio iaith glir, a rhaid esbonio'r newidiadau y mae disgwyl i rieni a gofalwyr eu gwneud yn glir. Byddai naratif cliriach mewn

cynlluniau gofal a chymorth yn helpu i ymgysylltu â rhieni. Un enghraifft yw osgoi ymadroddion fel *rhiant i flaenoriaethu anghenion y plant* gan fod hyn yn rhy amhenodol a gall arwain at gamddehongli. Roedd cynlluniau hefyd yn tueddu i fod yn gyfarwyddol ac yn cael eu harwain gan wasanaethau, yn hytrach nag yn naratif ystyrion i rieni ei ddeall yn glir a chanolbwyntio arno. Rydym yn ymwybodol bod mwy o hyfforddiant wedi'i gynllunio yn y maes ymarfer hwn.

Atal

Cryfderau:

Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am ddull gweithredu'r awdurdod lleol o ran atal, a seilwaith gwasanaethau a helpodd i ddatblygu cymorth yn y gymuned yn ystod cyfnod y pandemig. Nid oedd y maes hwn yn ganolbwynt yr arolygiad hwn, ond gwelsom fynediad cynyddol at wasanaethau megis cysylltwyr cymunedol a mentrau cymdeithasol.

Ceir enghreifftiau o wasanaethau sy'n gallu ymateb yn brydlon i fodloni lefel benodol o angen er gwaethaf galw uchel; mae gwasanaeth ail-alluogi therapi galwedigaethol yn ymatebol ac yn darparu gofal a chymorth i helpu'r bobl i ddychwelyd i'w cartrefi neu i aros ynddynt. Mae'r ymarferwyr ailalluogi yn addasu gofal a chymorth dros amser i wneud iawn am y diffyg cymorth arall megis gwasanaethau cymorth cartref. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ymateb cadarnhaol i gefnogi'r bobl ond mae'n golygu y gall effeithio ar gyflawni ailalluogi'n barhaus ei hun.

Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o restrau aros ar draws meysydd gwasanaethau oedolion ac yn eu monitro, ac mae wedi comisiynu sefydliad allanol i helpu i fynd i'r afael â'r asesiadau sydd wedi ôl-gronni. Roedd yr adolygiadau gorau o gynlluniau gofal a chymorth yn rhoi mewnwleidiad clir i amgylchiadau unigol pobl ac yn cynrychioli dealltwriaeth o amgylchiadau'r unigolyn a'r canlyniadau sy'n bwysig iddo.

Gwnaethom nodi gwasanaethau'n cydweithio i hyrwyddo cynnig cyffredinol o gymorth, a diwylliant atal ac ymyrryd yn gynnar yn y blynyddoedd cynnar er mwyn lleihau'r galw mewn meysydd gwasanaeth eraill. Blaenoriaeth strategol oedd sicrhau 'y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn'.

Mae aelodau staff arweiniol y Tîm o Amgylch y Teulu a diogelu addysg yn darparu cyswllt rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol a phartneriaid. Nodwyd gennym fod prosesau cyfnewid gwybodaeth da ar waith; er enghraifft, gwnaethom glywed am Ymgyrch Encompass, sef partneriaeth effeithiol rhwng yr heddlu ac ysgolion gyda'r nod o rannu pob digwyddiad o gam-drin domestig ag ysgolion. Mae hyn yn rhoi cyfle i weithio gyda theuluoedd yn gynnar. Gwelsom hefyd rai arferion da sy'n canolbwyntio ar y plentyn drwy weithwyr y Tîm o Amgylch y Teulu.

Mae Cynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol wedi'u hyfforddi ymhlith y staff ym mhob ysgol ac mae eraill wedi derbyn hyfforddiant ar arferion ar sail emosiynol ac ar sail trawma. Mae cyfleoedd i'r staff ennill diploma ar sail trawma. Mae'r

awdurdod lleol yn obeithiol y bydd y dull hwn yn cael effaith gadarnhaol dros y blynyddoedd i ddod.

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi ymatebion prydlon i bryderon a gyflwynwyd am blant. Mae gan yr awdurdod lleol gryfderau yn ei gynhadledd amddiffyn plant ac adnodd ei Swyddogion Adolygu Annibynnol. Roedd adolygiadau ar gyfer plant, drwy gynadleddau amddiffyn plant a gweithdrefnau plant sy'n derbyn gofal, yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd y Swyddogion Adolygu Annibynnol a chadeiryddion cynadleddau hefyd yn cynnal adolygiadau canol ffordd a gallem weld gwaith dilynol ar faterion heb eu datrys a chmau gweithredu penodol y cytunwyd arnynt.

Yr hyn y mae angen ei wella:

Dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio o'r newydd ar sut y gall fynd i'r afael yn brydlon ag anghenion a gyflwynir ar draws y system gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn gorfod rhoi blaenoriaeth i atgyfeiriadau brys i'r gwasanaethau oedolion, sy'n golygu nad yw rhai pobl yn cael eu hasesu mewn modd amserol. Pan na chaiff adolygiadau eu cynnal, mae perygl hefyd na fydd anghenion newidiol pobl yn cael sylw ac y bydd yn arwain at ddarparu gofal a chymorth nad yw'n bodloni eu hanghenion. Yn anochel, mae hyn yn arwain at gynnydd yn anghenion pobl a dirywiad yn eu hamgylchiadau, sy'n gofyn am ymyrraeth fwy dwys yn ddiweddarach.

Roedd diffyg ymateb amserol, oedi wrth asesu, adolygu, cynllunio gofal a chymorth a chyfathrebu yn rhesymau pam yr oedd rhai pobl yn anhapus â'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y gwasanaethau oedolion.

Er gwaethaf dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar yn y gwasanaethau plant, mae heriau'n wynebu'r awdurdod lleol wrth atal anghenion rhag dwysáu oherwydd y nifer cyson uchel o atgyfeiriadau, ynghyd â chymhlethdod anghenion y plant a'r peryglon maent yn eu hwynebu. Gwelsom fod llwyth gwaith staff yn anochel yn uchel a'i bod yn anodd blaenoriaethu gwaith a throsglwyddo ffeiliau ar draws timau yn effeithlon.

Roedd rhai asesiadau risg wedi anwybyddu dangosyddion risg. Roedd diffyg chwilfrydedd proffesiynol a gwelwyd cyfleoedd a gollwyd i archwilio risg yn drylwyr, gan gynnwys pryderon hanesyddol. Er ei bod yn bwysig gweithio'n optimistaidd gyda theuluoedd, mae hefyd yn hanfodol nodi y gall ymddygiad yn y gorffennol ragfynegi ymddygiad yn y dyfodol. Mae angen canolbwyntio'n benodol ar wella dadansoddiadau risg mewn achosion o gam-drin domestig ac yn benodol dylai ymarferwyr gael sgysiau myfyriol gyda rheolwyr am y dangosyddion risg. Pan fydd ffeiliau'n cael eu cau, dylid sicrhau bod cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith i sicrhau y ceir ymateb prydlon i achosion atgwmpo a pherygl dioddef niwed o'r newydd.

Mae llawer o'r plant yn cael eu gweld a chaiff grwpiau craidd eu cynnull, ond ceir oedi a manylion prin yn rhai o'r cynlluniau diogelwch. Gwelsom fod bylchau hollbwysig mewn ymweliadau i weld rhai plant, ac nid oedd grwpiau craidd yn amlwg. Mae'r rhain yn elfennau hanfodol o'r system amddiffyn plant a rhaid mynd i'r

afael â nhw. Mae hyn yn arbennig o anodd pan allai arferion fod dan bwysau, ac roedd yn ffactor yn yr achosion pan na chofnodwyd cynnydd yn eglur mewn cynllunio gofal a chymorth bob amser.

Gwelsom fod y pandemig wedi effeithio ar ddull yr awdurdod lleol o sicrhau ansawdd gan fod meysydd eraill wedi cael blaenoriaeth. Mae'n amserol i'r awdurdod lleol ail-rymuso ei ddull o roi sicrwydd bod pobl yn cael gofal a chymorth sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn ymatebol. Dylai'r arweinwyr gefnogi'r ymagwedd at sicrhau ansawdd.

Partneriaethau ac integreiddio

Cryfderau:

Yn gyffredinol, manteisir yn gadarnhaol ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol. Gwelsom dystiolaeth o gydweithredu ym meysydd rhyddhau o'r ysbyty ac ym maes diogelu oedolion. Mae'r tîm rhyddhau ar y cyd a'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn enghreifftiau arbennig o gadarnhaol, gyda chydweithrediad agos rhwng therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, a gweithwyr cymdeithasol. Roedd cyfathrebu rhyngbroffesiynol a chyfraniad at y broses cynllunio gofal a chymorth yn amlwg. Sefydlwyd y tîm gofal integredig i helpu i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu amrywiaeth o gymorth iechyd a gofal. Yn y maes hwn, gwelsom dystiolaeth o sut y gall gwaith partneriaeth da wneud gwahaniaeth i ganlyniadau gwell i'r bobl.

Roedd yr adborth oddi wrth bartneriaid yn gadarnhaol ar y cyfan o ran gweithio rhyngasiantaethol. Dywedodd cynrychiolwyr Heddlu Dyfed Powys a darparwyr fod yr awdurdod lleol yn ymatebol ar y cyfan a bod cyfathrebu da yn amlwg. Dywedodd rhai darparwyr fod y fforwm darparwyr yn gwella, a bod cymorth gydag anawsterau'r gweithlu yn gadarnhaol iawn.

Roedd yr ymatebion a gawsom gan sefydliadau partner mewn perthynas â'r gwasanaethau plant yn gadarnhaol ar y cyfan, a dywedasant fod cysylltiadau gwaith cynhyrchiol rhwng timau gofal cymdeithasol a phartneriaid. Ategwyd hyn mewn gweithgarwch arolygu arall lle gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n dda rhwng yr heddlu, ysgolion a thimau mewnol. Roedd presenoldeb amlasiantaeth da yn bennaf a chyfraniadau ar y cyd mewn adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, grwpiau craidd a chynadleddau amddiffyn plant. Rhannwyd gwybodaeth amlasiantaeth mewn trafodaethau strategaeth a chofnodwyd argymhellion yn glir.

Yr hyn y mae angen ei wella:

Rhaid i'r uwch-reolwyr ar draws yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd gydweithio i ddatrys pryderon a nodwyd mewn perthynas â phartneriaethau sy'n methu ar lefelau strategol mewn rhai meysydd. Dylai hyn gynnwys sgysiau cydweithredol sy'n arwain at atebion cytunedig a chyd-ddealltwriaeth o drothwyon a mynediad at wasanaethau.

Gwelsom adnoddau'n cael eu tynnu'n ôl o gytundeb a rennir rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol a oedd yn cefnogi gwasanaethau gofal a chymorth ar y cyd, heb

gyfathrebu clir. Er gwaethaf yr anawsterau ariannu mewn sefydliadau a galwadau sy'n gwrthdaro, mae hyn yn dangos diffyg cyd-ddealltwriaeth rhwng sefydliadau o anghenion pobl.

Gwelsom fod hyn yn creu tensiwn ar draws arferion gweithredu'r gwasanaeth. Mewn un enghraifft yn ymwneud â rhyddhau o'r ysbyty, roedd y staff gofal cymdeithasol a'r staff iechyd yn anghytuno o ran sgorio'r rhestr wirio nyrsio i benderfynu p'un a oedd angen cartref gofal â chymorth nyrsio ar yr unigolyn. Bu oedi cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau o'r ysbyty tra oedd yr asiantaethau yn datrys hyn.

Nodwyd rhywfaint o anawsterau wrth gydweithio â chydweithwyr iechyd yn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol. Barnwyd bod y trothwyon ar gyfer mynediad at y gwasanaethau'n uchel; dywedodd staff gofal cymdeithasol mai cyfyng oedd y cymorth ar gael, hyd yn oed mewn argyfwng, pan oedd risg o niwed yn uchel. Roedd pecynnau gofal yn cael eu rheoli gan y timau gofal cyffredinol a reolir yn hytrach na'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae hyn yn golygu, ar adegau, bod pobl yn cael dwy set o asesiadau a chymorth ar ddwy system technoleg gwybodaeth ar wahân. Yn yr un modd, canfuom rai enghreifftiau o gofnodion iechyd (ysbyty) yn ymwneud â galluedd meddyliol na chawsant eu rhannu ag ymarferwyr gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth hanfodol, sydd ei hangen ar ôl rhyddhau o'r ysbyty, i adolygu amgylchiadau pobl ar gael.

Roedd pwysigrwydd gwasanaethau a arweinir gan iechyd i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg ar unrhyw adeg yn fater a amlygwyd yn gyson yn ystod yr arolygiad hwn. Cafwyd enghreifftiau pan nad oedd cefnogaeth gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl awtistig, anabledau dysgu ac iechyd meddwl ar gael neu roeddent yn cymryd gormod o amser i'w cyrchu. Mae'r tîm awtistiaeth integredig yn wasanaeth a arweinir gan ddiagnosis, ond ar ôl y diagnosis ychydig iawn o gymorth dilynol sydd ar gael i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu.

Roedd y diffyg cymorth arbenigol yn peri rhwystredigaeth i ymarferwyr ac, i rai unigolion ag anghenion cymhleth, roedd hyn yn golygu nad oedd eu hanghenion yn cael eu hasesu. Mae hon yn sefyllfa argyfyngus a rhaid ei datrys gan fod rhai oedolion agored i niwed yn cael eu gadael yn ynysig ac mewn perygl y bydd eu hanghenion yn dwysáu.

Rhaid i'r awdurdod lleol weithio gyda phartneriaid i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth. Dywedwyd wrthym fod grŵp llywio awtistiaeth integredig yn cael ei adfywio a bod hyfforddiant ar awtistiaeth wedi cael ei hysbysebu dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Disgwyliwn i'r awdurdod lleol weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â bylchau critigol mewn meysydd gwasanaethau eraill, gan gynnwys meysydd arbenigol fel asesiadau synhwyraidd a lleferydd ac iaith. Roedd cymorth ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol plant hefyd yn gyfyng iawn; dywedodd aelodau o staff fod cymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn rôl

gyngkori yn hytrach na rôl gyflawni. Dywedasant hefyd fod y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn anodd i'r fath raddau nes bod sgysiau am ddiwallu anghenion plant agored i niwed yn gecrus. Roedd adborth gan ymarferwyr yn dangos bod rhai gwasanaethau iechyd yn gallu darparu asesiadau, ond mai prin oedd y gwaith cyfredol.

Roedd pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn faes problemus, yn enwedig i'r bobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth a pharhaus. Gwelsom fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc 17/18 oed ac yn hŷn. Gwelsom enghreifftiau o anghenion pobl yn dwysáu o ganlyniad i hyn, ac yn cael eu denu i droseddu. Ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, roedd rhai cynghorwyr personol yn ymgymryd â rôl y dylai gwasanaethau oedolion fod yn ei chyflawni.

Llesiant

Cryfderau:

Yng nghyd-destun y galw cynyddol, ac adnoddau'n brwydro i fodloni'r galw hwn, canfuom fod yr awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn bennaf, a'i fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, ac at ofalwyr sydd angen cymorth.

Mae llais yr unigolyn a'i farn yn y cyd-destun diogelu yn cael eu cynrychioli'n dda ar y cyfan. Ategir hyn gan dempled cronfa ddata ar gyfer casglu cryfderau a gwybodaeth yn seiliedig ar risg drwy archwilio 'beth sy'n gweithio'n dda, am beth rydym yn poeni, a pha gamau sydd angen eu cymryd'.

Yn ystod ein gweithgarwch arolygu ffurfiol diwethaf yn 2020, gwnaethom sylwadau ar ddadansoddiadau ymarferwyr ac roedd crynodeb o ffeiliau gwasanaethau oedolion yn glir ac â phwyslais ar y cyfan, un o ganfyddiadau'r arolygiad hwn hefyd yn 2022. Gwelsom fod cydbwysedd da o wybodaeth a oedd yn rhoi ymdeimlad bod yr ymarferydd wedi canolbwyntio ar ddeall profiadau bywyd pobl.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn glynu at brosesau diogelu oedolion ac yn eu deall ar y cyfan. Wrth hyrwyddo diogelwch ar lefel unigol, canfuom ymarferwyr yn ceisio dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Gwelsom rai enghreifftiau rhagorol o ddadansoddiadau ymarferwyr, ac roedd rhesymeg a gofnodwyd yn dangos bod dealltwriaeth o'r hyn yr oedd ei angen i helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Pan oedd gan bobl weithiwr penodedig, gwelsom waith eithriadol gyda phobl ag anghenion cymhleth fel awtistiaeth. Gwelsom enghreifftiau o fynediad prydlon at asesiadau therapi galwedigaethol a gwasanaethau'n cael eu darparu drwy'r llwybr hwn.

Canfuom ymatebion amserol ar y cyfan yn sicrhau diogelwch uniongyrchol plant a phobl ifanc. Gwelsom dystiolaeth o arfer cadarnhaol wrth ymateb i'r bobl ifanc a

oedd mewn perygl o fod yn destun cam-fanteisio, gan gynnwys defnyddio proses asesu ac adolygu risg i ddeall a rheoli sefyllfaoedd risg uchel. Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol ar gam-fanteisio ar blant yn darparu dull cadarnhaol o oruchwylio plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-fanteisio.

Yr hyn y mae angen ei wella:

Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau nad yw diogelwch pobl yn cael ei beryglu drwy sicrhau y ceir dadansoddiad clir ynghyd â rhesymeg sy'n gyson seiliedig ar yr holl dystiolaeth. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol yn ystyried y peryglon uniongyrchol i unigolion, yn ogystal â phobl eraill a allai fod mewn perygl o ddioddef cam-drin ac esgeulustod.

Roedd dadansoddiadau ymarferwyr i oedolion a dyfnder meddwl beirniadol yn amrywio. Er enghraifft, ar gyfer un unigolyn dim ond cyfeiriad byr oedd at berygl cwmpo, heb roi ystyriaeth bellach i raddau'r risg yn llawn.

Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i reoli gweithgarwch diogelu oedolion. Er bod atgyfeiriadau'n cael eu sgrinio ac roedd materion diogelwch uniongyrchol yn cael ymateb mewn modd amserol yn y gwasanaethau oedolion, roedd cynnydd nodedig ym maint a chwmpas y gwaith diogelu. Er enghraifft, y galw cynyddol am waith y Llys Gwarchod. Er mwyn rheoli'r galw, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal fel eithriad ac na chaiff cynadleddau eu cynnal. Mae'r rhain yn elfennau allweddol o weithdrefnau a hepgoriadau diogelu y dylai'r awdurdod lleol eu hadolygu.

Ar rai adegau, roedd oedolion yn cael eu dargyfeirio i gael eu cefnogi gan wasanaethau atal heb gynnal asesiad o anghenion cymwys. Rhaid i'r awdurdod lleol gynnig asesiad i'r bobl pan ymddengys fod ganddynt anghenion gofal a chymorth cymwys, ac os caiff y cynnig hwn ei dderbyn, sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal.

O ran pobl awtistig, a phobl oedd angen cymorth arbenigol ar gyfer anabledau dysgu ac iechyd meddwl, roedd cael mynediad i wasanaethau yn bryder sylweddol. Clywsom am oedolyn a oedd wedi cael diagnosis o awtistiaeth yn ddiweddar ond na chafodd ei atgyfeirio na'i gyfeirio at ofal cymdeithasol. Dywedodd pobl wrthym y dylai pobl awtistig gael cymorth mwy rhagweithiol. Dywedasant y gall pobl gael eu hesgeuluso a chadarnhawyd hyn ar draws ein gweithgarwch arolygu. Dylai'r awdurdod lleol wneud gwaith yn canolbwyntio ar bobl awtistig a phobl ag anabledau dysgu i ddeall eu safbwyntiau a'u profiadau.

Nodwyd oedi wrth ymateb i anghenion rhai plant a phobl ifanc a chollwyd cyfleoedd i gynnal asesiadau cynharach a allai fod wedi atal anghenion rhag dwysáu. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu pan ymddengys fod ganddynt anghenion gofal a chymorth cymwys.

Mae rhai elfennau allweddol o'r system amddiffyn plant yn destun oedi ac ni chynhaliwyd neu ni chofnodwyd ymweliadau statudol a grwpiau craidd. O ganlyniad,

nid yw cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn cael eu diweddarau ac nid ydym wedi cael sicrwydd bod llesiant a diogelwch yn cael sylw digonol.

Mewn perthynas â phlant â phrofiad o ofal sy'n byw y tu allan i Gymru, mae'r awdurdod lleol yn gyson wedi comisiynu darparwr yn Lloegr sy'n gweithredu gwasanaethau heb gofrestru. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'r darparwr hwn oherwydd prinder lleoliadau addas yn lleol ac yng Nghymru, ac mae'r darparwr yn gallu ymateb yn gyflym pan fydd angen derbyniadau brys i ofal. Mae gan rai o'r bobl ifanc hyn anghenion cymhleth ac mae angen lleoliad arbenigol arnynt. Fodd bynnag, cafodd eraill eu derbyn i'r lleoliadau hyn oherwydd nad oedd lleoliad arall ar gael.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried gwella ei drefniadau sicrhau ansawdd contractau a chomisiynu ar gyfer y darparwr hwn. Rhaid blaenoriaethu hyn. Mae'n galonogol bod gan yr awdurdod lleol gynlluniau i gynyddu nifer y lleoliadau er mwyn mynd i'r afael yn benodol â'r pryder hwn. Bydd cefnogaeth gorfforaethol yn hanfodol i lwyddiant y cynlluniau hyn.

Mae patrwm comisiynu gwasanaethau heb eu rheoleiddio yn bryder sylweddol gan na allwn fod yn sicr o safonau a diogelwch. Er enghraifft, trwy gynnal gwiriadau o gymhwyster aelodau o staff a diogelwch ac addasrwydd y llety. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc hefyd yn byw cryn bellter o'u hardal leol, sy'n broblem i hunaniaeth a diogelwch pobl ifanc ac sy'n golygu bod goruchwylio a rheoli achosion yn eithriadol o anodd. Rydym hefyd yn pryderu am ansawdd y gofal a'r cymorth ar gyfer y bobl ifanc hyn. Ni allem ddod o hyd i unrhyw ddarpariaeth addysg, ac roedd oedi sylweddol i fynd i'r afael ag anghenion ieuchy rhai ohonynt.

Roedd y bobl ifanc yn gyffredinol yn fodlon ar y trefniadau hyn, roedd ymarferwyr yn eu gweld yn unol â disgwiliadau statudol, ac roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn darparu trosolwg a her drwy'r broses adolygu plant sy'n derbyn gofal.

Mewn perthynas â phlant coll, gwelsom wybodaeth yn cael ei rhannu gan yr heddlu ar ffurf atgyfeirio ac atodiadau. Fodd bynnag, ni welsom yn benodol gyfweiliadau dychwelyd adref yn ddiogel (a gynhaliwyd gan Llamau). Mae hyn yn golygu nad ydym wedi cael sicrwydd bod gwybodaeth hollbwysig am risg yn cael ei rhannu'n briodol ar draws asiantaethau. Mae angen gweithio'n agosach gyda Llamau i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

Y camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Sir Penfro ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch ymgysylltu parhaus â'r awdurdod lleol.

Methodoleg

Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy adolygu ac olrhain eu cofnod gofal cymdeithasol. Gwnaethom adolygu dros hanner cant o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain o leiaf deg.

Mae'r gwaith o olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys cael sgysiau gyda'r unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ofalwyr, y gweithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill cysylltiedig.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o weithwyr yr awdurdod lleol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom ddsbarthu arolygon i'r staff, i sefydliadau partner ac i bobl.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, i'r partneriaid ac i'r bobl a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.